

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cyflwyniad
# Introduction



ISBN: 978-0-9544431-8-4





## Ein gweledigaeth

**Byddwn ni'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu rhan i gyflawni newidiadau cadarnhaol, parhaol yn eu bywydau.**

## Our Vision

**We will work with and on behalf of children and young people to achieve positive and lasting changes in their lives.**

## Ein gwerthoedd

1. Mae plant a phobl ifanc yn ganolog i bopeth a wnawn.
2. Rydym yn gwrando ar blant a phobl ifanc, gan sbarduno gweithredu a newid.
3. Rydym yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc trwy weithio mewn partneriaeth â phobl a sefydliadau a'u galw i gyfrif lle bo angen.
4. Rydym yn bencampwyr plant a phobl ifanc.
5. Rydym yn credu yn hawliau pawb, amrywiaeth a pharch.
6. Rydym yn arwain ac yn herio ag uniondeb a dewrder.
7. Rydym yn ysbrydoli pobl i wneud eu gorau dros blant a phobl ifanc.
8. Rydym yn buddsoddi yn ein staff.

## Our values

1. Children and young people are at the centre of everything we do.
2. We listen to children and young people, driving action and change.
3. We make a difference to children and young people's lives by working in partnership with people and organisations and holding them to account where necessary.
4. We champion children and young people.
5. We believe in everyone's rights and diversity.
6. We lead and challenge with integrity and courage.
7. We inspire people to do their best for children and young people.
8. We invest in our staff.

# Cyflwyniad Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru

**Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am y gwaith sydd wedi'i wneud gan fy nhîm angerddol ac ymroddgar o staff rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014. Ceir penodau ar bob un o swyddogaethau fy swyddfa, gan gynnwys un lle'r wyf i'n dadansoddi materion polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Yn y bennod benodol hon rwyf i'n adolygu gweithgaredd y flwyddyn ac yn diweddu gyda'r meysydd a ddylai fod ganolbwynt sylw Llywodraeth Cymru yn fy marn i.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd yn rhyngwladol gyda hawliau plant. Hi oedd y cyntaf i wneud llawer o bethau: y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant, y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ar chwarae, y gyntaf yn y DU i ymwreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn y gyfraith. Er gwaethaf y datblygiadau arloesol hyn, yng Nghymru yn 2014, mae gennym ni un o'r cyfraddau uchaf o dlodi plant yn y DU o hyd ac nid yw'r canlyniadau ar gyfer rhai o'n plant a phobl ifanc mwyaf bregus yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i hawliau plant. Nid oes gennym ni weinidog cabinet ar ran plant a phobl ifanc a chafwyd adegau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf pan fûm i'n teimlo ein bod efallai yn rhy gyfforddus yn ein rôl fel arloeswr rhyngwladol, a bod ein gweledigaeth genedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc bron â mynd yn angof. Mae profiadau bywyd rhai o'n plant mwyaf bregus yn parhau'n bryder dyddiol, a gaiff ei amlygu yn yr ymwybyddiaeth gynyddol o gam-drin hanesyddol sy'n dangos yn ddiamwys bod rhaid i ni gael pethau'n iawn i blant a phobl ifanc heddiw.

Yr hyn y mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ei wneud yw ceisio dangos ymhle mae rhai o'r canlyniadau gwael hyn yn digwydd a beth sydd angen i ni ei wneud ar ran plant a phobl ifanc yng Nghymru. Rwyf i hefyd yn amlinellu rhai galwadau clir ar Lywodraeth Cymru ac eraill i helpu i ailosod plant a phobl ifanc fel blaenoriaeth i'r genedl. Yr hyn rwyf i am ei weld yw arweinyddiaeth glir ar bob lefel sy'n sefydlu plant a phobl ifanc fel gwir flaenoriaeth genedlaethol i Gymru lle mae canlyniadau'r rhai mwyaf bregus yn gwireddu'r weledigaeth honno.



# Introduction by Keith Towler, Children's Commissioner for Wales

**This report details the work undertaken by my passionate and dedicated staff team, between 1 April 2013 and 31 March 2014. There are chapters on each function of my office, including one where I analyse policy issues affecting children and young people. Within this particular chapter I review the year's activity and conclude with what I believe should be the Welsh Government's areas of focus.**

The Welsh Government has been an international trailblazer when it comes to children's rights. It was the first to do many things: the first UK country to appoint a Children's Commissioner, the first country in the world to legislate on play, the first in the UK to embed the UN Convention on the Rights of the Child into law. Despite these ground-breaking developments, in 2014 Wales, we still have one of the highest rates of child poverty in the UK and outcomes for some of our most vulnerable children and young people don't match our commitment to children's rights. We do not have a cabinet minister for children and young people and there have been times in the last year where I have felt that we might have become too comfortable in our role as an international trailblazer, and almost forgotten our national vision for children and young people. The lived experiences of some of our most vulnerable children remains a daily concern, heightened by an increasing awareness of historical abuse that demonstrates unequivocally that we have to get things right for children and young people today.

What this annual report aims to demonstrate are where some of those poor outcomes occur and what we need to do for children and young people in Wales. I also outline some clear calls on Welsh Government and others to help reposition children and young people as the nation's priority. What I want to see is clear leadership at all levels that establishes children and young people as a true national priority for Wales where outcomes for our most vulnerable meet that vision.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn gwahanol fformatau drwy ffonio ni ar 01792 765600 neu e-bostiwch post@complantcymru.org.uk

This report is available in alternative formats by phoning us on 01792 765600 or emailing us at post@childcomwales.org.uk

0808 801 1000 / 80800*
post@complantcymru.org.uk

@complantcymru / @childcomwales
www.complantcymru.org.uk / www.childcomwales.org.uk

Ysgrifennwch / Write to us:
Comisiynydd Plant Cymru
Rhadbost RRGL XLYC BHGC
Abertawe SA7 9FS

Children's Commissioner for Wales
Freepost RRGL XLYC BHGC
Swansea SA7 9FS

* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)
Text us for free (start your message with COM)